

Neges Cristingl: Gwir ystyr y Nadolig

Eglurwch mai gwir ystyr y Nadolig yw dathlu pen-blwydd Iesu - i ddathlu bod Iesu, Mab Duw, wedi cael ei eni ym Methlehem dros 2,000 o flynyddoedd yn ôl. Anfonodd Duw ei fab, Iesu, i ddangos i ni gymaint y mae'n ein caru ni, waeth pa sefyllfa y cawn ni ein hunain ynddi, neu waeth sut rydyn ni'n teimlo.

Er mwyn dangos hyn, fe ddefnyddiwn:

Oren i gynrychioli'r byd [adeiladwch eich Cristingl wrth i chi egluro].

Yna fe rown dâp neu ruban coch a'i lapio o amgylch yr oren i ddangos bod Duw yn caru'r byd cyfan. Nid oes ddim na neb yn cael eu hanwybyddu.

Mae'r pedwar pren yn cynrychioli'r pedwar tymor – y gwanwyn, yr haf, yr hydref a'r gaeaf, a'r melysion yn cynrychioli creadigaeth Dduw, sydd yn cynnwys chi a fi!

Yn olaf, mae'r gannwyll [cymerwch saib i'w goleuo] yn ein hatgoffa fod Iesu wedi dweud mai ef yw 'goleuni'r byd'. Hyd yn oed yn y manau tywyllaf, pan fyddwn ni'n gofidio am rywbeth, mae Duw am i ni wybod ei fod ef yn ein caru, a'i fod ar gael i ni.

Fe gofiwn bod Iesu wedi datgan bod Cristnogion hefyd yn 'oleuni'r byd' (Mathew 5.14-16) ac y dylen nhw garu'r byd fel y mae Duw yn ei wneud. Mae Cristnogion yn cael eu galw i fod yn oleuni disglair ar gyfer y manau tywyll hynny a charu pawb, yn enwedig os ydyn nhw'n mynd trwy gyfnod anodd.

Fe ledaenodd y neges hon o gariad fel tân gwyllt. O faban bach gafodd ei eni ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, mae tua dau biliwn o Gristnogion yn y byd. Mae hynny'n gyfystyr ag un o bob tri o bobl y byd!

Gweddi

Annwyl Arglwydd Dduw,

Diolch dy fod ti'n caru'r byd.

Diolch dy fod ti'n fy ngharu i.

Diolch i ti am y rhai sy'n fy ngharu i.

Helpa fi i ddangos dy gariad di i bawb rydw i'n cwrdd â nhw.

Fel y byddaf i'n gallu disgleirio fel Iesu, i'r rhai sydd mewn angen.

Amen.